**Crynodeb o Gyfarfod y Bwrdd Teithio Llesol**

**8 Chwefror 2018**

## Croeso a chyflwyniadau gan Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet bawb i'r cyfarfod a rhoi trosolwg o'i flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Tynnodd sylw at y cyllid cyfalaf ychwanegol diweddar oedd ar gael ar gyfer cynlluniau teithio llesol yn 2017-18, gan groesawu trafodaethau gan y Bwrdd ar sut y caiff teithio llesol ei ariannu yn y dyfodol. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd bwysigrwydd yr ymchwiliad craffu ôl-ddeddfwriaethol sy'n cael ei gynnal gan Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau gan drafod yn fyr y cyflwyniad diweddar o'r Mapiau Rhwydwaith Integredig.

Bu'r Bwrdd yn rhoi amlinelliad o'u blaenoriaethau gydag Ysgrifennydd y Cabinet, gan godi sawl maes i gynnwys cyllid teithio llesol, gweithio ar y cyd, sut i godi ymwybyddiaeth o deithio llesol a'r bwletin ystadegol diweddar.

## Mapiau Rhwydwaith Integredig - Y Broses Werthuso a Dilysu Annibynnol

Cafodd y Bwrdd drosolwg o ddatblygiad y Mapiau Rhwydwaith Integredig a swyddogaeth y dilysydd annibynnol, fydd yn asesu'r broses werthuso. Cafwyd trafodaeth ar lefel yr wybodaeth a gafwyd gan yr awdurdodau lleol, gan gynnwys a ddilynwyd awgrymiadau y Canllaw Dylunio, y posibilrwydd o ehangu rhaglen beilot Sustrans, oedd yn cefnogi awdurdodau lleol, a'r dull o edrych ar y tebygolrwydd o feicio yng Nghymru - Propensity to Cycle Tool (PCT) a sut y gellir defnyddio hyn yn effeithiol i flaenoriaethu llwybrau. Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod ymateb priodol i Fapiau Rhwydwaith Integredig annigonol.

## Cyllid Teithio Llesol

Bu'r Bwrdd yn trafod Cyllid Teithio Llesol gan bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi mynegi ei ymrwymiad i sicrhau bod teithio llesol yn cael ei ariannu'n effeithiol yn y dyfodol. Roedd y drafodaeth yn cynnwys ar ba lefel y dylid cyflwyno'r rhaniad cyfalaf / refeniw, pwysigrwydd canolbwyntio ar raglenni newid ymddygiad a'r posibilrwydd o ariannu cynlluniau refeniw ar lawr gwlad drwy grwpiau cymunedol. Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod dulliau cydweithredol o fewn adrannau eraill Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau positif o ddarparu cyllid yn y ffordd hon. Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn trafod cyllid ymhellach yn y cyfarfod nesaf i gael sicrwydd ynghylch eu hargymhellion ar y cyd ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet.

## Y Diweddaraf ar Ganllawiau Dylunio Statudol

Cafodd y Bwrdd drosolwg byr o'r diweddaraf am y Canllaw Dylunio, gan roi'r cyngor iddynt bod Phil Jones Associates wedi derbyn contract i adolygu'r agweddau technegol. Mae'r ddogfen derfynol i'w rhyddhau yn ystod y Gynhadledd Teithio Llesol ym mis Mai. Bydd gweithdy ar 1 Mawrth yng Nghaerdydd ar gyfer y rhai hynny fyddai â diddordeb cynnig adborth ac awgrymiadau.

**Y Diweddaraf gan Lywodraeth Cymru**

Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf ar weithgarwch Llywodraeth Cymru gan gynnwys trefnu cyfarfod cynllunio ar gyfer y Gynhadledd Teithio Llesol ym mis Mai.

**UNRHYW FATER ARALL**

1. Bu'r Bwrdd yn trafod rhaglen Dewch i Gerdded Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu eu bondiau llesiant. Mae disgwyl rhagor o wybodaeth yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

2. Roedd trafodaeth fer ar bwysigrwydd defnyddio'r term 'gwrthdrawiad' yn hytrach na 'damwain' wrth gyfeirio at wrthdrawiadau traffig mewn bwletinau ystadegol.

3. Cafodd y Bwrdd y newyddion diweddaraf ar ddatblygiad Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol wrth gyflwyno cwestiwn newydd i ysgolion 'iach' a hefyd gynlluniau i alw grŵp arbenigol i drafod targedau teithio llesol.

4. Awgrymwyd bod Dinas-ranbarth Caerdydd a Trafnidiaeth Cymru yn cael eu gwahodd i'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn rhan o'r trafodaethau.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Mehefin 2018**